**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-3828-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

llywydd@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

Heddiw rwyf wedi gwneud Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Hadau a Phlanhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020, o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y Rheoliadau'n dod i rym cyn y diwrnod cwblhau gweithredu. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, y bwriadaf ei osod unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi cael ei gofrestru.

Yn unol â pharagraff 7(3) a 7(4) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, rhaid i'r offeryn hwn gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddo erbyn 2 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. O dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol, ac y caiff y Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arni. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ynghylch yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 26 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, gan mai ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs